



Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru 2026 - 2051

Cytundeb Cyflawni
Fersiwn wedi'i
Gymeradwyo

24 Chwefror, 2026

This document is also available in English.





Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol.....	4
2. Cyd-destun Polisi	5
Uchelgais y CBC - i ddatblygu rhanbarth cysylltiedig, gwydn, blaengar, cynaliadwy.....	5
Y Cyfle a gynigir gan Gyd-destun Polisi CBC	6
3. Rôl y Cytundeb Cyflawni (DA) a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS)	9
4. Paratoïr Cynllun Datblygu Strategol (SDP)	11
Llywodraethu.....	11
Deilliannau Allweddol.....	11
Deddfwriaeth, Polisi, a Chanllawiau sy'n berthnasol i baratoïr SDP	12
Dull Asesu Integredig: Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) ac asesiadau cysylltiedig eraill.	13
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).....	14
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	15
Sail Tystiolaeth.....	16
Archwiliad Annibynnol a Chadernid	17
Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Rheoleiddiol wrth Baratoi Cynllun.....	17
Canllaw Cynllunio Atodol (CCA).....	17
Monitro ac Adolygu.....	18
Cydweithio.....	18
5. Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS)	20
Egwyddorion allweddol ar gyfer cyfranogi.....	20
Yr Iaith Gymraeg ac Ymgysylltu Dwyieithog.....	21
Pwy fydd y CBC yn ymgynghori â hwy?	21
Sut y bydd y CBC yn eich cynnwys chi.....	27
Adeiladu Consensws.....	29
Rheoli Sylwadau.....	30
Sylwadau Hwyr	30
Argaeledd Dogfennau	31
6. Yr Amserlen	32



Asesiad Risg.....	33
7. Cyllideb y Rhaglen a Strategaeth Adnoddau	34

Atodiadau

Atodiad 1: Asesiad Sail Dystiolaeth

Atodiad 2: Rhestr o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol

Atodiad 3: Prif Swyddfeydd Llywodraeth Leol

Atodiad 4: Crynodeb o gyfranogiad rhanddeiliaid yn y CDS

Atodiad 5: Amserlen SDP

Atodiad 6: Asesiad Risg



1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn cynrychioli un o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd ar gyfer twf a buddsoddi, o farchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ganddo hefyd y manteision ychwanegol o fod yn un o'r lleoliadau mwyaf deniadol i fyw a gwneud busnes, gydag amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, arfordir deinamig, ynghyd â threftadaeth adeiledig a diwyllianol gref. Gyda llesiant wrth ei gwraidd, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio i weld y rhanbarth yn datblygu mewn modd blaengar ond cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd, datblygu gyrfaedd gwerth chweil, i fusnesau ffynnu, ac i gymunedau ffynnu.
- 1.2 Mae Uchelgais Gogledd Cymru eisoes yn gweithio'n effeithiol mewn ystyr gydweithredol wrth gyflawni'r Cynllun Twf ond drwy ddefnyddio manteision pwerau statudol newydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC), ei nod yw datblygu polisiau a phrosiectau strategol sy'n integreiddio lles economaidd â chynllunio gofodol a datblygu isadeiledd trafnidiaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu'r cynlluniau a'r strategaethau allweddol a ganlyn:
 - Fframwaith Buddsoddi Economaidd Rhanbarthol
 - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP)
 - Cynllun Datblygu Strategol (SDP)
- 1.3 O ran cynllunio gofodol, bydd gan yr SDP rôl allweddol wrth lunio a llywio twf y rhanbarth yn y dyfodol, trwy nodi cynigion strategol a pholisiau defnydd tir dros y cyfnod 2026–2051.
- 1.4 Trwy gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach, bydd yr SDP yn sicrhau aliniad a chydweithrediad ar draws ffiniau gweinyddol llywodraeth leol yn Rhanbarth Gogledd Cymru, gan adlewyrchu'r ffyrdd y mae pobl yn byw, sut mae marchnadoedd yn gweithredu, a sut mae'r system drafnidiaeth a busnesau'r rhanbarth i gyd yn rhyngweithio ac yn gweithredu. Mae hyn yn cynrychioli dull mwy cyfunol nag a ddefnyddiwyd o'r blaen; wedi'i alinio'n dynn ag uchelgeisiau datblygu economaidd a'n gweledigaeth ar gyfer dull mwy strategol o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth.
- 1.5 Er bod yr SDP yn ofyniad statudol, bydd yn cael ei deilwra i ymdrin â'r materion a'r gyrwyr allweddol ar gyfer y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys y nodau craidd y tu ôl i'r Cynllun Twf sef adeiladu economi fywiog, gynaliadwy a gwydn; adeiladu ar gryfderau i gyflawni twf cynhwysol; a hyrwyddo twf cynaliadwy a chynhwysol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



- 5.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cam cyntaf yn natblygiad yr SDP ac yn nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o wneud cynlluniau. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer ei baratoi, gan nodi amserlenni clir a cherrig milltir ar gyfer camau allweddol y broses. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i feithrin ymgysylltu a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.
- 5.2 Bydd y SDP yn dod yn rhan o'r fframwaith cynllun datblygu yng Nghymru, gan eistedd rhwng Wales y Dyfodol, sef y Cynllun Cenedlaethol uwchben, a Chynlluniau Datblygu Lleol neu LDP Lites islaw.

2. Cyd-destun Polisi

Uchelgais y CBC - i ddatblygu rhanbarth cysylltiedig, gwydn, blaengar, cynaliadwy

- 2.1 Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus fel partneriaeth o'r chwech awdurdod lleol yng ngogledd Cymru drwy'r Cynllun Twf - rhaglen gwerth £1bn sy'n canolbwyntio ar wneud gogledd Cymru yn gysylltiedig, gwydn, blaengar a chynaliadwy.
- 2.2 Ar 1 Ebrill 2025, bydd Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru yn dod yn rhan o Gyd-bwyllgor Corfforiedig y Gogledd (CBC y Gogledd), math newydd o gorff cyhoeddus rhanbarthol statudol yng Nghymru. Rydym yn dal i gael ein hadnabod fel Uchelgais Gogledd Cymru, gan sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith cydweithredol a'r enw da sydd eisoes ar waith, ond CBC y Gogledd yw ein henw cyfreithiol.
- 2.3 Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynrychioli'r ymrwymiad ar y cyd sy'n cynnwys chwech awdurdod lleol gogledd Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, i adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei gyfraniad i'r economi genedlaethol, sylfaen addysg a sgiliau, ac ansawdd uchel ei amgylchedd.
- 2.4 Y weledigaeth twf ar gyfer gogledd Cymru yw i ogledd Cymru ddod yn "rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon".
- 2.5 Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio dull cynhwysfawr o gyflawni'r nodau strategol o fod yn rhanbarth mwy Gwydn, Blaengar a Chysylltiedig - bydd hyn yn cynnwys gwella cysylltedd digidol, creu cyfleoedd swyddi, cadw pobl ifanc, ac arloesi a datblygu cynhyrchion gwerth uchel wrth gryfhau cadwyni cyflenwi. Y nod yw i'r prosiectau hyn gynhyrchu ychydig neu ddim allyriadau carbon a



sicrhau dyfodol hirdymor i genedlaethau olynol. Wrth wraidd yr uchelgais hon y mae'r CBC a'i nod craidd yw hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol a darparu arweinyddiaeth ranbarthol.

- 2.6 Bydd gan yr SDP rôl uniongyrchol i'w chwarae wrth hwyluso cyflawni'r pum rhaglen o fewn y cynllun twf - Bwyd Amaeth a Thwristiaeth, Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Ynni Carbon Isel, Cysylltedd Digidol, a Thir ac Eiddo. Gall hefyd edrych y tu hwnt i'r amserlen ar gyfer y Cynllun Twf ac ystyried dyfodol economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hwy gogledd Cymru.
- 2.7 Bydd yr SDP yn chwarae rhan hanfodol wrth alinio strategaethau rhanbarthol ar draws rhanbarth Uchelgais Gogledd Cymru ac mae'n hanfodol ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy a gwydn. Trwy ddarparu fframwaith cydlynol, mae'r SDP yn sicrhau bod sectorau allweddol - megis defnydd tir, trafnidiaeth, tai, a datblygu economaidd - yn cael eu hystyried mewn ffordd integredig yn hytrach nag ar wahân.
- 2.8 Mae'r aliniad hwn o bolisiau yn cefnogi cynllunio hirdymor sy'n cydbwysu twf economaidd â chynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch cymdeithasol. Trwy weledigaeth a rennir, bydd yr SDP yn galluogi'r rhanbarth i wneud penderfyniadau strategol sydd nid yn unig yn diwallu anghenion presennol ond hefyd yn rhagweld heriau yn y dyfodol, gan gynnwys newid hinsawdd, gwelliannau isadeiledd, a galw cynyddol am dai.
- 2.9 Yr un mor bwysig, bydd yr SDP yn gyrru cydweithredu rhwng gwahanol ardaloedd o'r rhanbarth, gan symud y ffocws o ddull sero-swm - lle mae enillion un ardal yn cael eu gweld fel colled un arall - i bersbectif o fudd i'r ddwy ochr. Trwy nodi a chydbwysu cyfaddawdau strategol yn dryloyw, bydd yr SDP yn sicrhau bod twf rhanbarthol yn cael ei gydlynw ac yn gynaliadwy, gan optimeiddio'r defnydd o adnoddau a rennir a manteisio ar gyfleoedd er budd y rhanbarth cyfan. I gloi, mae'r SDP yn hanfodol ar gyfer alinio strategaethau'r rhanbarth a sicrhau bod twf Uchelgais Gogledd Cymru nid yn unig yn gydlynol ac wedi'i gydgyssylltu ond hefyd wedi'i anelu at greu dyfodol gwydn, teg, ffyniannus a chynaliadwy i bawb.

Y Cyfle a gynigir gan Gyd-destun Polisi CBC

- 2.10 Ym mis Mehefin 2022, trosglwyddwyd y gofyniad i awdurdodau lleol gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (SDP) i'r pedwar CBC rhanbarthol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Sefydlodd y Ddeddf bedwar CBC yng Nghymru: Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru.



- 2.11 Roedd y Ddeddf yn ymateb i'r angen am ymagwedd strategol at ddefnydd tir a chynllunio trafnidiaeth, gan weithio mewn ffordd ranbarthol fwy cyfunol nag a gyflawnwyd o'r blaen, ac yn cyd-fynd yn dynn ag uchelgeisiau ynghylch datblygu economaidd.
- 2.12 I'r perwyl hwnnw, mae angen Cyd-bwyllgorau Corfforedig trwy offeryn statudol i hyrwyddo lles economaidd, cynllunio gofodol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cefnogi integreiddio cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir trwy eu tair swyddogaeth eang, sef paratoi:
- Fframwaith Economaidd Rhanbarthol;
 - Cynllun Datblygu Strategol (SDP); a
 - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP).
- 2.13 Trwy'r trawsnewidiad arfaethedig i'r math newydd hwn o gorff cyhoeddus rhanbarthol, bydd genym gyfle unigryw i ddatblygu polisi a phrosiectau rhanbarthol trawsnewidiol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy sicrhau cysylltedd ar draws lles economaidd, cynllunio gofodol a thrafnidiaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn harneisio eu potensial llawn.
- 2.14 Mae ein ffocws ar greu lleoedd a gyrru twf cynhwysol yn y rhanbarth yn dibynnu ar allu creu cydlyniant rhwng y pwerau statudol newydd ac mae Uchelgais Gogledd Cymru yn datblygu ei bortffolio o strategaethau a chynlluniau i gyflawni hyn.
- 2.15 Mae'r canllawiau statudol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig (a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2022), yn cydnabod cytundeb dyletswyddau lles economaidd, lle mae gan gynghorau cyfansoddol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig yr un pwerau yn fras. Yn yr achos hwn, byddai'r CBC, "yn ceisio cytuno ar broses gyda'i gynghorau cyfansoddol sy'n nodi sut y bydd arfer swyddogaethau cydamserol yn cael ei reoli."
- 2.16 Fodd bynnag, ar gyfer y pwerau nad ydynt yn gydamserol o gynllunio gofodol strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol, bydd "cyflawni swyddogaethau ar y lefel leol yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir yn ranbarthol gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig; mae hynny yn nhermau natur y penderfyniad ac amseriad pryd y gwneir penderfyniadau".
- 2.17 Roedd y canllawiau yn canolbwyntio ar y trefniadau statudol a chyfansoddiadol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn hytrach na manylion penodol ar y swyddogaethau i'w harfer. I'r perwyl hwnnw, mae'n ofynnol i Uchelgais Gogledd Cymru ddatblygu SDP ac RTP ar ôl cyhoeddi canllawiau ar wahân yn benodol ar gyfer y dyletswyddau hyn nad ydynt yn gydamserol.



2.18 Gan fod cynllunio strategol a thrafnidiaeth yn elfennau allweddol wrth greu lleoedd, mae hefyd yn bwysig bod yr RTP a'r SDP wedi'u halinio'n agos. Fodd bynnag, nid yw ailadroddiad cyntaf yr SDP i fod i gael ei ddatblygu o fewn amserlen yr RTP cyntaf. Mae'n debygol na fydd yr ailadroddiad cyntaf o'r RTP yn gallu ystyried cynllunio datblygu strategol yn llawn ond dylai sefydlu mecanweithiau fel y gellir cyflawni hyn wrth symud ymlaen, gan ategu nodau cyffredinol ar gyfer lles economaidd.



3. Rôl y Cytundeb Cyflawni (DA) a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS)

- 3.1 Mae'r Cytundeb Cyflawni (DA) a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS) yn nodi dechrau ffurfiol y broses baratoi'r SDP. Un o amcanion craidd y system cynllun datblygu yng Nghymru yw cynnwys y gymuned yn gynnar, effeithiol ac ystyrlon, sydd â'r bwriad o adeiladu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau strategol, a chynigion yn yr SDP. Mae'r dull cyfranogol hwn yn sicrhau cynhwysiant ac adlewyrchiad o anghenion a dyheadau'r gymuned.

Cydrannau'r Cytundeb Cyflawni (DA)

- 3.2 Mae'r DA yn ddatganiad cyhoeddus sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS), sy'n nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o wneud cynlluniau. Mae hyn yn sicrhau tryloywder a chynhwysiant o'r cychwyn cyntaf. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) sy'n nodi amserlenni a cherrig milltir clir ar gyfer gwahanol gamau'r broses.

Swyddogaethau'r DA:

- **Atgyfnerthu rôl yr SDP:** Yn tynnu sylw at yr SDP fel offeryn rhanbarthol hanfodol o fewn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).
 - **Ymgysylltu â'r Gymuned a Rhanddeiliaid:** Yn hysbysu pryd a sut y gallant fod yn rhan o'r broses SDP.
 - **Gosod Disgwyliadau Realistig:** Yn egluro galluoedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig o ran amser, adnoddau, a disgwyliadau.
 - **Sicrhau Adnoddau:** Yn sicrhau bod cyllideb ac adnoddau staff yn cael eu dyrannu ar gyfer paratoi'r SDP.
 - **Egluro Cwmpas a Dylanwad:** Yn diffinio cwmpas y cynllun a'i effaith bosibl.
 - **Hwyluso Cydlynïad:** Yn sicrhau aliniad â strategaethau a dogfennau rhanbarthol eraill fel Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Twf/Bargeinion Dinesig.
- 3.3 Rhaid cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni (DA), gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS) a'r amserlen, drwy benderfyniad y CBC yn unol â Rheoliad 11(2) yr SDP cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gytuno. Mae cymeradwyo'r DA yn nodi dechrau ffurfiol y broses o baratoi'r cynllun. Mae'r CBC wedi ymrwymo i gadw at yr amserlenni a'r prosesau ymgynghori a nodwyd. Rhaid cyhoeddi'r DA, gyda chopïau ar gael i'w harchwilio ym Mhrif Swyddfa/Swyddfeydd y CBC ac ar ei wefan, yn unol



â Rheoliad SDP 12. Trwy gadw at y DA, sicrhair bod paratoi'r SDP yn broses strwythuredig, gynhwysol ac effeithiol. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb eang o'r camau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a chytuno ar Gytundeb Cyflawni.

Tabl 1 Camau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu Cytundeb Cyflawni

Cam	Disgrifiad	Amseru
Cam 1: Paratoi	Paratoi DA drafft a chynnwys cyrff ymgynghori penodol yn anffurfiol ar y cwmipas a'r cynnwys. Adolygu DA drafft lle bo hynny'n briodol.	Mawrth-Mehefin 2025
Cam 2: Ymgynghoriad	Ymgynghoriad ar DA drafft (6 wythnos).	Gorffennaf-Awst 2025
Cam 3: Cymeradwyo	Cytundeb Cyflawni wedi'i fabwysiadu drwy benderfyniad y CBC.	Medi 2025
Cam 4: Cytundeb	Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni terfynol i Lywodraeth Cymru i'w gytuno.	Cyn 31 Mawrth 2026
Cam 5: Cyhoeddusrwydd	Cyhoeddi'r DA cymeradwy gyda chopiau ar gael i'w harchwilio ym Mhrif swyddfa/swyddfeydd y CBC ac ar ei wefan.	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i LIC gytuno ar y DA.



4. Paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP)

- 4.1 Mae nifer o gamau allweddol sy'n gysylltiedig â'r broses SDP ac mae pob un o'r rhain yn darparu cyfleoedd i ddeialog ddigwydd fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol		Cyfleoedd i gymryd rhan
Cam 1	Cytundeb Cyflawni Paratoi a chyflwyno	Ymgynghori â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol
Cam 2	Paratoi a recriwtio cyn-adneuo	Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru
Cam 3	Paratoi'r strategaeth a ffafir ac ymgynghoriad cyhoeddus	Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol 6 wythnos
Cam 4	Paratoi'r Cynllun Adnau ac ymgynghoriad cyhoeddus	Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol 6 wythnos
Cam 5	Cyflwyno i PEDW a Llywodraeth Cymru ar gyfer EIP	Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru
Cam 6	Archwiliad	Cyfle i fynychu a chymryd rhan yn sesiynau gwrandawiadau'r archwiliad
Cam 7	Adroddiad yr Arolygydd	Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru
Cam 8	Mabwysiadu	Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru

Llywodraethu

- 4.2 Mae canllawiau statudol yn gofyn am sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC), gyda chyfrifoldeb am baratoi'r SDP i'w gymeradwyo gan y CBC. Bydd yr SPSC yn sicrhau cynrychiolaeth wleidyddol a mewnbyn i baratoi a gweithredu'r SDP. Bydd yr SPSC yn darparu plattfform ar gyfer cynnwys eraill a sicrhau bod cyngor arbenigol a sector penodol priodol ar gael i gefnogi penderfyniadau'r CBC.
- 4.3 Mae'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC) yn cynnwys saith Aelod, gan gynnwys Deiliad y Portffolio sy'n gyfrifol am Gynllunio o bob un o'r 6 cyngor Cyfansoddiadol, ac Aelod a benodir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Is-bwyllgor yn gwneud argymhellion ar agweddau allweddol ar y DA i'w cymeradwyo ac mae hefyd yn ystyried y gofyn i gyflwyno adnoddau'r broses gynllunio yn gyffredinol.

Deilliannau Allweddol

- 4.4 Yn unol â 'Llawlyfr' yr SDP, nod y cynllun fydd cyflawni'r deilliannau allweddol a ganlyn:



- Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o ansawdd sy'n seiliedig ar y Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Creu Lleoedd Cynaliadwy, wedi'u halinio â pholisi cenedlaethol Cymru'r Dyfodol (a nodir yn PCC) wedi'i integreiddio â SA/SEA/HRA, gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Bod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol cynnar, effeithiol ac ystyrlon i ddeall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar y strategaeth, y polisiau a'r cynigion gofodol.
- Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth y rhanbarth, yn ogystal â chysylltiadau y tu hwnt.
- Ystyried sut mae dinasoedd, trefi ac aneddeleoedd yn gweithredu'n unigol ac ar y cyd yn rhanbarthol ac fel is-ranbarthau (lle bo hynny'n briodol) a thrwy hynny siapio'r strategaeth ofodol. Dylai hyn gael ei ategu gan dystiolaeth glir i gyflawni'r materion allweddol a nodwyd yn y rhanbarth.
- Bod yn unigryw drwy nodi'n glir sut y bydd Rhanbarth Gogledd Cymru yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau a darparu'r fframwaith ar gyfer CDLI cryno.
- Bod yn wydn i newid hinsawdd a chefnogi'r trawsnewid i gymdeithas carbon isel yn unol â'r targedau a'r cyllidebau lleihau carbon diweddaraf fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2).
- Ymgorffori egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni fel y nodir yn PCC.
- Sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- Cyflawni'r hyn a fwriadwyd trwy gynlluniau hyfyw, gan ystyried gofynion isadeiledd angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau marchnad eraill.
- Bod yn rhagweithiol ac ymatebol gyda chynlluniau yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn hyblyg i ddarparu ar gyfer newid.

Deddfwriaeth, Polisi, a Chanllawiau sy'n berthnasol i baratoi'r SDP

- 4.5 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 yn sefydlu'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol yng Nghymru. Prif bwrpas y rheoliadau hyn yw sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu paratoi mewn ffordd gyson ac effeithiol ledled y wlad.
- 4.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r Llawlyfr Cynllun Datblygu Strategol (Llawlyfr SDP) fel canllaw cynhwysfawr ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae'n cynnig cyngor ymarferol i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn effeithiol, yn gyflawnadwy, ac yn cyd-fynd â pholisiau ac amcanion cyffredinol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF), "Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040," yn



ogystal â'r egwyddorion creu lleoedd a amlinellir yn y polisi cynllunio cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru (PCC).

4.7 Dosbarthwyd y fersiwn ddrafft o'r Llawlyfr SDP i'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) yn hydref 2022. Dylai'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi yn hydref 2025. Mae'r amserlen hon yn caniatáu ad-borth a mireinio digonol, gan sicrhau bod y ddogfen derfynol yn gadarn ac yn ddefnyddiol i'r holl Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ac Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n ymwneud â'r broses gynllunio. Mae'r dogfennau isod hefyd yn berthnasol i baratoi SDPs a dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r Llawlyfr SDP:

- Cymru'r Dyfodol: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004) Rhan 6
- Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 (Deddf LGEW)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant 2015)
- Polisi Cynllunio Cymru (PCC): Rhifyn diweddaraf gan Lywodraeth Cymru
- Canllaw Cymunedol Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 2) (2022): Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru
- Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol: Canllaw Gweithdrefnau (2015): I'w ddiweddarau gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)
- Cynlluniau Datblygu Lleol: Paratoi ar gyfer Cyflwyno – Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol (2015): Hefyd i'w diweddarau gan PEDW
- Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), Arfarniad Cynaliadwyedd (SA), ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Yn cynnwys Adran 6 a Datganiadau Ardal
- Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

Dull Asesu Integredig: Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) ac asesiadau cysylltiedig eraill.

4.8 Rhaid i'r SDP fod yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) fel sy'n ofynnol gan Gyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC a Rheoliadau Asesu Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2015). Mae'r CBC yn cydnabod y gwerth a'r cyfleoedd ar gyfer dull asesu effaith integredig wrth baratoi'r SDP. Gan hynny, bydd yr SA/SEA yn Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) yn integreiddio gofynion statudol ac elfennau allweddol o Ddeddf



Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb, safonau'r iaith Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Deddf yr Amgylchedd (adran 6) (lle bo'n berthnasol) mewn un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) a fydd yn galluogi asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chynhwysfawr o oblygiadau cynaliadwyedd opsiynau, amcanion, polisiau a chynigion twf lle mae materion economaidd a chymdeithasol yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag elfennau amgylcheddol.

4.9 Mae'r broses o SA/SEA yn un ailadroddol a fydd yn cael ei chynnal trwy gydol y gwaith o baratoi'r cynllun ac mae'n cynnwys chwe cham hanfodol:

- Sefydlu cyd-destun polisi, nodi a dogfennu sail tystiolaeth, nodi materion cynaliadwyedd a datblygu amcanion a dangosyddion ISA/SEA
- Ymgynghori ag ymgynghoreion penodol ar Adroddiad Cwmpasu ISA
- Cyhoeddi Adroddiad ISA o'r Opsiynau strategol a'r Strategaeth a Ffafir
- Cyhoeddi Adroddiad ISA Adneuo gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol (gyda'r SDP)
- Cyhoeddi'r Adroddiad ISA terfynol yn dilyn Adroddiad yr Arolygwyr a'i fabwysiadu
- Monitro a gweithredu'r ISA

4.10 Ar ddechrau'r broses ISA/SEA, bydd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu ISA sy'n nodi sut y bydd y broses ISA/SEA yn cael ei chynnal. Bydd canfyddiadau'r gwaith ISA/SEA yn seiliedig ar dystiolaeth ar gamau allweddol yn y broses o baratoi'r SDP. Bydd adroddiadau'n cael eu paratoi, ac yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad Strategaeth a Ffafir a'r ymgynghoriad SDP Adneuo. Bydd Adroddiad ISA Terfynol yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r holl ddogfennaeth SDP arall pan gaiff ei gyflwyno i PEDW a Llywodraeth Cymru i'w archwilio. Ymgynghorir â'r Cyrff Amgylcheddol statudol ym mhob cam y cyfeirir atynt uchod a bydd deialog barhaus ehangach gyda'r cyrff hyn wrth i'r broses fynd rhagddi.

4.11 Ni fydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn cael ei integreiddio â'r ISA gan ei fod yn defnyddio mecanwaith profi rhagofalus gwahanol. Bydd yr ISA yn crynhoi canfyddiadau'r HRA fel rhan o'i asesiad o effeithiau ar fioamrywiaeth.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

4.12 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn broses a orchmynnir gan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, (Erthygl 6(3)) i asesu a yw unrhyw gynllun neu brosiect defnydd tir yn debygol o effeithio'n sylweddol ar safle Ewropeaidd, naill ai'n unigol neu'n gronns â phrosiectau eraill. Trwy ddilyn camau



allweddol yr HRA, gellir datblygu'r SDP yn unol â gofynion cyfreithiol tra'n diogelu uniondeb safleoedd Ewropeaidd a'u cynefinoedd a'u rhywogaethau cysylltiedig.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

4.13 Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA) yn nodi'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r diffiniad yn Neddf Llesiant 2015. Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant. Mae Deddf Llesiant 2015 yn gosod saith nod llesiant y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus eu cyflawni:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

4.14 Bydd yr SDP yn dangos sut mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd y dull a gymerwyd i werthuso'r cynllun trwy'r ISA yn galluogi'r CBC i ddeall lle gall y cynllun wneud y mwyaf o'i gyfraniad. Dylai'r nodau llesiant fod yn rhan annatod o baratoi Adroddiad Cwmpasu ISA a'u defnyddio i lywio'r adolygiad o dystiolaeth, nodi materion a strwythuro'r fframwaith ISA a fydd yn asesu opsiynau, amcanion, polisiau a chynigion twf y cynllun.

4.15 Mae Deddf Llesiant 2015 hefyd yn nodi pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u cyflawni wrth ymgymryd â'u dyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy. Y rhain yw:

- Ystyried yr hirdymor fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hangenion eu hunain.
- Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd neu waethygu.
- Dilyn dull integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir.



4.16 Bydd y nodau, yr amcanion a'r pum ffordd o weithio yn llywio datblygiad y fframwaith ISA. Bydd y fframwaith hwn yn sail i asesu effeithiau arwyddocaol tebygol yr SDP. Bydd y broses ailadroddol hon yn profi cryfderau, gwendidau ac effeithiau amgylcheddol tebygol cydrannau arfaethedig i ddatblygu a mireinio'r SDP wrth iddo symud ymlaen.

Sail Tystiolaeth

4.17 Bydd y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) yn cael ei ategu gan sail tystiolaeth gadarn a chymesur wedi'i theilwra i'r heriau penodol y mae'n mynd i'r afael â nhw. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) y dasg o adolygu materion sy'n gysylltiedig â datblygu yn ei ardal yn barhaus yn unol ag adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004). Mae'r broses adolygu hon yn parhau, cyn ac ar ôl mabwysiadu'r SDP.

4.18 Wrth baratoi SDP, bydd y CBC yn cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn y rhanbarth. Mae'r archwiliad hwn yn cynnwys dadansoddi'n feirniadol a rhesymoli methodolegau safonol a ddefnyddir ar gyfer llunio a choladu tystiolaeth, gan sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad pellach y sail tystiolaeth. Yn ogystal, bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMRs) yn chwarae rhan hanfodol wrth hysbysu'r SDP drwy nodi ble a pham mae polisiau presennol y CDLI wedi bod yn llwyddiannus neu nad ydynt yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd.

4.19 **Ystyried Perthnasedd Dyddiad Sylfaen:** Rhaid gwerthuso perthnasedd dyddiad sylfaen y dystiolaeth bresennol yn ofalus mewn perthynas â'r polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol. Mae polisiau cenedlaethol yn esblygu dros amser, gyda pholisiau newydd yn cael eu cyflwyno ac eraill yn cael eu diddymu, gan effeithio ar y sail tystiolaeth sy'n cefnogi cynlluniau. Mae'n hanfodol asesu a yw'r dystiolaeth bresennol yn parhau i fod yn 'addas i'r pwrpas' neu a oes angen ei diweddaru i gyd-fynd â'r newidiadau polisi hyn.

4.20 **Integreiddio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI):** Er y bydd yr SDP yn ystyried CDLI presennol ledled y rhanbarth, ni fydd yn unig yn cyfuno eu polisiau, cynigion a dyraniadau heb ystyried strategaeth tymor hwy ar gyfer y rhanbarth. Bydd yr ymrwymïadau a'r dyraniadau o'r CDLI presennol a fabwysiadwyd yn cyfrannu at gydrannau tymor byr i dymor canolig yr SDP cyntaf a gynhyrchwyd.

4.21 Bydd gweledigaeth glir ar gyfer y rhanbarth, ymdrin â gyrwyr newid ac ymateb i gyfleoedd yn bwysig ar gyfer y cyfeiriad hirdymor. Bydd rhaid i'r weledigaeth wneud dewisiadau ar fynegi strategaeth ofodol gynaliadwy, rôl lleoedd a lleoliadau ar gyfer gweithgareddau defnydd tir strategol, yn ogystal



â strategaethau ar gyfer pob ACLI o fewn ardal yr SDP. Er y gall Cynlluniau Datblygu Lleol ddarparu'r blociau adeiladu ar gyfer cyfnod tymor byr i ganolig SDP, dylid ystyried y weledigaeth hirdymor o'r newydd.

4.22 **Asesiadau Sail Tystiolaeth a Ragwelir:** Mae'r asesiadau sail tystiolaeth penodol sy'n ofynnol ar gyfer paratoi'r SDP wedi'u manylu yn Atodiad 1.

Archwiliad Annibynnol a Chadernid

4.23 Rhaid i'r CBC beidio â chyflwyno SDP oni bai ei fod o'r farn bod y cynllun yn barod i'w archwilio, Adran 64(2) o Ddeddf 2004. Bydd yr SDP hefyd yn cael ei ystyried yn erbyn y profion cadernid a nodir yn y Llawlyfr SDP. Y tri phrawf yw:

- Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas? (A yw'n glir bod yr SDP yn gyson â chynlluniau eraill?)
- Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer y rhanbarth yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
- Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni? (A yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Rheoleiddiol wrth Baratoi Cynllun

4.24 Rhaid i'r broses baratoi cynllun gydymffurfio â'r holl ofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol gan gynnwys:

- Yr ISA (Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig)
- Y Rheoliadau SEA (Asesiad Amgylcheddol Strategol)
- Y Rheoliadau HRA (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd), a
- Y CIS (Cynllun Cynnwys y Gymuned).

4.25 Ar ben hynny, bydd angen i'r SDP hefyd gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd y CBC hefyd yn ystyried canllawiau archwilio Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), sy'n amlinellu'r broses a'r ystyriaethau allweddol i'w cyflwyno a'u harchwilio.

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)

4.26 Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yn nodi Canllawiau Cynllunio Atodol allweddol sy'n hanfodol ar gyfer gweithredu safleoedd a chynigion strategol o fewn y Cynllun Datblygu Strategol (SDP). Yn ogystal, bydd y CBC yn ymdrin â materion ehangach ar sail fwy generig neu ranbarthol. Bydd paratoi dogfennau CCA rhanbarthol yn cynnig fframwaith effeithlon, cydlynol a chyson ar gyfer canllawiau cynllunio manwl, sy'n seiliedig ar bynciau ledled gogledd Cymru. Nod y dull hwn yw lleihau'r angen i



greu dogfennau CCA tebyg sawl gwaith ar draws y rhanbarth, a thrwy hynny hyrwyddo cysondeb rhanbarthol a chyflawni effeithlonrwydd ariannol.

Monitro ac Adolygu

4.27 Mae monitro yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben unwaith y bydd cynllun yn cael ei fabwysiadu. Mae'n cynrychioli cylch adborth hanfodol o fewn y broses gylchol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Dylai monitro ac adolygu fod yn swyddogaeth barhaus o'r system a arweinir gan gynlluniau ac mae'n agwedd hanfodol ar lunio polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r gofynion deddfwriaethol allweddol mewn perthynas â monitro ac adolygu fel a ganlyn:

- Mae PCPA 2004 (Adran 61) yn nodi bod yn rhaid i'r CBC barhau i adolygu'r materion y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu gynllunio ei ddatblygiad.
- Mae PCPA 2004 (Adran 76) a Rheoliad SDP 40 yn nodi bod yn rhaid i'r CBC gyhoeddi a chyflwyno AMR i Lywodraeth Cymru sy'n nodi sut mae amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni, neu beidio (erbyn 31 Hydref bob blwyddyn).
- Mae PCPA 2004 (Adran 69(1)) a Rheoliad SDP 39(1) gyda'i gilydd yn nodi bod yn rhaid i'r CBC adolygu ei SDP heb fod yn hwy na 6 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu.
- Mae rheoliad SDP 39(2) yn nodi bod yn rhaid i'r CBC gymeradwyo drwy benderfyniad adroddiad o adolygiad a baratowyd yn unol ag Adran 69(1) a chyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 69(2). Dylid cyflwyno'r 'Adroddiad Adolygu' (RR) i Lywodraeth Cymru o fewn chwe mis ar ôl sbarduno'r broses adolygu.
- Mae rheoliad 17 o'r Rheoliadau SEA yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro cynlluniau penodol i nodi effeithiau andwyol annisgwyl a galluogi camau adfer priodol i gael eu cymryd.

Cydweithio

4.28 Bydd gweithio rhanbarthol cydweithredol yn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd yr SDP trwy integreiddio safbwyntiau, arbenigedd, adnoddau a rhanddeiliaid amrywiol. Bydd y dull cydweithredol hwn yn caniatáu i'r CBC i:

- **Adnabod Nodau Cyffredin:** Sefydlu amcanion a rennir sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu rhanbarthol.
- **Rhannu Gwybodaeth:** Hyrwyddo tryloywder a gwneud penderfyniadau gwybodus trwy gyflwyno data a mewnwleidiadau.
- **Cyflynu Camau Gweithredu:** Cydamseru mentrau a gweithgareddau i osgoi dyblygu a gwneud y gorau o'r defnydd o adnoddau.
- **Sbarduno Synergeddau:** Gwneud y mwyaf o effaith ymdrechion cyfunol, gan greu canlyniadau mwy effeithiol ac effeithlon.

4.29 Ar ben hynny, bydd cydweithio yn meithrin:



- **Arloesedd:** Annog datrysiadau creadigol i heriau defnydd tir cymhleth.
- **Dysgu ac Addasu:** Hwyluso gwelliant parhaus trwy brofiadau a rennir ac arferion gorau.
- **Ymddiriedaeth a Chyfranogiad y Cyhoedd:** Adeiladu hyder ac ymgysylltu ymhlith aelodau'r gymuned trwy brosesau cynhwysol a thryloyw.

4.30 Bydd y CBC yn ymestyn ei ffocws y tu hwnt i ogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymdrech ar y cyd â Chyd-bwyllgorau Corfforedig eraill yng Nghymru a chyrff cynllunio gofodol perthnasol ac awdurdodau lleol yn Lloegr i fynd i'r afael â materion traws-ranbarthol. Mae cydweithrediad eang o'r fath yn sicrhau cynllunio cynhwysfawr a chydlynol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau rhanbarthol, gan ymdrin â heriau a chyfleoedd daearyddol ehangach.



5. Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS)

5.3 Mae'r CIS yn sefydlu fframwaith cynhwysfawr sy'n manylu ar sut y bydd y CBC yn ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid eraill trwy gydol y broses SDP.

5.4 Mae'r CIS yn ymdrin â'r materion hynny a restrir yn Rheoliad SDP 8 ac yn amlinellu'r egwyddorion a'r mecanweithiau y bydd y CBC yn eu defnyddio i annog cyfranogiad. Mae hyn yn cynnwys:

- Y cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol hynny sydd i fod yn rhan o'r broses.
- Yr amseriad a'r dulliau y ceisir cyfranogiad cymunedol a phryd.
- Esbonio sut mae ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynnwys yr SDP.

Egwyddorion allweddol ar gyfer cyfranogi

5.5 Bydd yr egwyddorion ymgynghori canlynol yn llywio dull Cyd-bwyllgorau Corfforedig o gynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r SDP:

- **Ymrwymiad:** Bydd y CBC yn ceisio darparu cyfleoedd i'r gymuned gyfan (gwahanol grwpiau oedran, grwpiau cymunedol lleol, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau nodwedd gwarchod-edig) gan gynnwys busnesau, i gymryd rhan ar gamau priodol yn y broses gan gynnwys deunydd 'fformat annhechnegol' fel rhan o'r broses i annog ymgysylltu ehangach.
- **Cynwysoldeb:** Bydd y CBC yn annog cyfranogiad gweithredol pawb sydd â diddordeb yn, neu a allai gael eu heffeithio gan yr SDP, gan gynnwys cynhyrchu dogfennau hawdd eu defnyddio a defnyddio technegau ymgynghori hawdd eu defnyddio i annog ymgysylltiad ehangach â'r gymuned, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc.
- **Addasrwydd:** Bydd y CBC yn ceisio ymgysylltu â'r gymuned trwy'r dulliau mwyaf priodol fel y'u pennir trwy ymgynghori ar y ddogfen hon.
- **Tryloywder a hygyrchedd:** Bydd y CBC yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael ar-lein ac yn ymgymryd ag ymgysylltu mewn ffordd dryloyw ac agored ac yn ceisio gwneud y defnydd mwyaf o dechnoleg newydd fel ymgynghori rhithwir a chyfryngau cymdeithasol.
- **Atebolrwydd:** Bydd y CBC yn cyhoeddi canlyniadau ymgysylltu â'r gymuned ar-lein ac yn ceisio sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu cyfranogiad.
- **Cynhyrchiant:** Bydd y CBC yn ceisio defnyddio ymgynghori rhithwir ac ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau cymaint o gonsensws â phosibl ar gynnwys yr SDP.
- **Realaeth:** Bydd y CBC yn ceisio sicrhau bod yr holl bartion sy'n ymwneud â'r broses yn deall ac yn parhau i fod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni yng nghyd-destun deddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru, a'r adnoddau sydd ar gael.

5.6 Mae'r CBC yn rhoi pwyslais cryf ar adeiladu consensws trwy gydol y broses baratoi SDP. Nod y CBC yw sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymgysylltu'n weithredol o'r cychwyn cyntaf. Mae Atodiad 4 yn



crynhoi dull arfaethedig y CBC ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned ym mhob cam allweddol o baratoir cynllun. Bwriad y dull hwn yw sicrhau tryloywder, cynhwysiant ac ymatebolrwydd trwy gydol y broses SDP gyfan, gan annog cyfranogiad gweithredol a pharhaus gan yr holl bartion perthnasol.

Yr Iaith Gymraeg ac Ymgysylltu Dwyieithog

- 5.7 Mae'r CBC wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, gan sicrhau ei bywiogrwydd a'i thwff ledled Cymru. Yn unol â gofynion deddfwriaethol, rhaid i'r broses SDP integreiddio ystyriaethau ar gyfer y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Yn benodol, o dan adran 62(6A) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004), rhaid i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig gynnwys asesiad o effeithiau posibl y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg.
- 5.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu gofynion polisi ar gyfer y Gymraeg, tra bod Nodyn Cyn-gor Technegol 20 (TAN20): 'Cynllunio a'r Gymraeg' yn cynnig canllawiau ar ei ystyried o fewn cynlluniau datblygu a'r broses ISA. Bydd y CBC yn gwerthuso effeithiau posibl yr SDP ar y Gymraeg yn ystod y broses ISA. Bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei ddogfennu yn y cynllun adneuo, gan fanylu ar sut y rhoddwyd sylw i'r ystyriaethau iaith Gymraeg. Bydd y broses ISA yn asesu effaith graddfa a lleoliad twf, gweledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion ar y Gymraeg. Os yw'r dystiolaeth yn awgrymu effaith niweidiol, bydd y CBC yn ystyried diwygio'r strategaeth neu'n nodi mesurau lliniaru.
- 5.9 Ar bob cam o'r SDP, bydd Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnal, gydag ymgysylltu dwyieithog yn cael ei hwyluso drwy wahanol fesurau:
- Derbynnir gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a bydd atebion i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg.
 - Bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori, gan gynnwys llythyrau, ffurflenni sylwadau, hysbysiadau cyhoeddus, a chylchlythyrau, yn ddwyieithog.
 - Bydd gan wefan yr SDP gynnwys dwyieithog.
 - Bydd dogfennau'r SDP drafft a bydd yr SDP terfynol a fabwysiadwyd ar gael mewn fformatau Gymraeg a Saesneg.

Pwy fydd y CBC yn ymgynghori â hwy?

- 5.10 Mae'r Rheoliadau SDP yn amlinellu'r gofynion ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio DA (Rheoliadau SDP 7 a 9) gan gynnwys cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol a'r cyhoedd. Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n pwysleisio cyfranogiad a chydweithredu



effeithiol fel dwy o'i phum ffordd o weithio. Yn unol â hynny, bydd y CBC yn ceisio cynnwys y grwpiau isod yn y broses baratoi SDP. Trwy ymgysylltu â'r grwpiau amrywiol hyn, nod y CBC yw sicrhau ymagwedd gynhwysfawr a chynhwysol at broses baratoi'r SDP, gan adlewyrchu anghenion a dyheadau'r holl randdeiliaid dan sylw:

Aelodau o'r Cyhoedd

- 5.11 Ymgysylltir â thrigolion drwy ymgynghoriadau cyhoeddus i sicrhau bod modd ystyried eu barn wrth lunio cynllun datblygu. Bydd y CBC yn datblygu ac yn cynnal cronfa ddata ymgynghori sy'n cynnwys gwybodaeth gyswilt a manylion ymgynghori'r unigolion, asiantaethau, sefydliadau a'r grwpiau cymunedol hynny sydd am gymryd rhan yn y broses SDP. Bydd y gronfa ddata yn cynorthwyo'r CBC i reoli'r broses SDP ac yn galluogi partion â diddordeb i gael eu diweddarau a'u hysbysu am gynydd.
- 5.12 Daeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) i rym ym mis Mai 2018. Roedd hyn yn gosod cyfyngiadau newydd ar sut y gall sefydliadau ddal a defnyddio data personol a diffinio hawliau am y data hwnnw. O ganlyniad i'r GDPR, rhaid i unrhyw bartion â diddordeb roi eu caniatâd, yn ysgrifenedig, os ydynt yn dymuno cael eu hychwanegu at y gronfa ddata rhanddeiliaid newydd. Bydd unrhyw un sy'n gwneud sylwadau yn unrhyw un o gamau'r broses SDP yn cael ei ystyried i fod wedi rhoi ei ganiatâd a bydd yn cael ei ychwanegu at gronfa ddata rhanddeiliaid. Bydd hyn yn galluogi'r CBC i weinyddu eu sylwadau a'u diweddarau. Bydd cynrychiolwyr hefyd yn cael cyfle i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
- 5.13 Os yw unrhyw berson, grŵp, sefydliad neu gwmni yn dymuno bod yn rhan o baratoi'r SDP, gallant ofyn am gael eu hychwanegu at gronfa ddata rhanddeiliaid trwy gofnodi eu manylion cyswilt ar wefan CBC.

Awdurdodau Lleol ac Aelodau Etholedig

- 5.14 Bydd cydweithio â chynghorau cyfagos a chynrychiolwyr etholedig yn sicrhau aliniad rhanbarthol ac integreiddio strategaethau. Ymgynghorir yn ffurfiol ag Awdurdodau Lleol ym mhob cam allweddol o'r broses SDP trwy eu priod Brif Weithredwyr ac Arweinwyr. Cyfathrebir trwy e-bost. Bydd y CBC hefyd yn bwydo gwybodaeth ac yn ceisio mewnbwn gan:
- Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG)
 - Rhwydweithiau Grŵp Rheolwyr Polisi Gogledd Cymru (NWPMG)
 - Swyddogion perthnasol ag arbenigeddau eraill fel trafndiaeth ranbarthol a datblygu economaidd.



- Ymgysylltir â Phrif Weithredwyr a chyfarwyddwyr y rhanbarth drwy fforymau priodol.

5.15 Er mwyn sicrhau bod Cynghorwyr Awdurdodau Lleol yn cymryd rhan yn briodol yn y broses SDP, gallant ofyn am gael eu hychwanegu at gronfa ddata'r SDP. Bydd hyn yn caniatáu ymgynghori â hwy a'u hysbysu ym mhob cam allweddol o'r broses SDP. Bydd yr holl gyfathrebu â Chynghorwyr yn cael ei gynnal trwy e-bost, gan sicrhau diweddariadau amserol ac uniongyrchol. Yn ogystal, bydd Awdurdodau Lleol yn helpu i ledaenu'r wybodaeth hon i'w Cynghorwyr trwy rwydweithiau mewnol sefydledig, gan helpu i gynnal llinellau cyfathrebu clir a sicrhau bod Cynghorwyr yn parhau i gael eu hysbysu drwy gydol y broses.

Cyngorau Tref a Chymuned

5.16 Mae rôl Cyngorau Tref a Chymuned wrth ledaenu gwybodaeth i drigolion ar faterion o bwysigrwydd lleol yn hanfodol. Maent yn gyswilt hanfodol i gymunedau ledled gogledd Cymru, gan sicrhau bod trigolion yn cael eu hysbysu ac yn ymwneud â materion lleol. Ymgynghorir â Chyngorau Tref a Chymuned yn ffurfiol ym mhob cam allweddol o'r broses SDP, gan sicrhau bod eu mewnbwn a'u hadborth yn cael eu hystyried. Bydd y cyngorau hyn yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata'r SDP, a bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei chynnal trwy e-bost, gan hwyluso cyfathrebu effeithlon ac amserol.

Llywodraeth Cymru

5.17 Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i alinio â pholisïau cenedlaethol, fframweithiau a nodau datblygu cynaliadwy.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig Cyfagos

5.18 Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â Chyd-bwyllgorau Corfforedig eraill yng Nghymru i:

- **Feithrin Pwrpas a Rennir:** Mae'r pandemig wedi uno sefydliadau'r sector cyhoeddus yn fwy nag erioed. Wrth symud ymlaen, bydd yn hanfodol cynnal yr aliniad hwn o amgylch pwrpas cyffredin i wella cydweithredu a chydlyniant.
- **Hyrwyddo Tryloywder a Bod yn Agored:** Bydd annog cyfathrebu agored, rhannu gwybodaeth, a chynnal tryloywder yn adeiladu ymddiriedaeth ac yn gwella prosesau gwneud penderfyniadau.
- **Arbenigedd Sbarduno:** Bydd tynnu ar y wybodaeth arbenigol o wahanol swyddogaethau busnes yn hanfodol i lywio penderfyniadau ac arferion mireinio, yn enwedig mewn meysydd fel cynllunio strategol a thrafnidiaeth.

- **Annog Cydweithredu Trawsffiniol:** Bydd croesawu cydweithredu ar draws timau a sefydliadau yn helpu i yrru arloesedd a sicrhau bod penderfyniadau yn parhau i ganolbwyntio ar bobl, gan gadw cymunedau wrth wraidd ymdrechion cynllunio rhanbarthol.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

5.19 Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) yn 2015 i ddod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd i asesu ac ymdrin ag anghenion lles eu hardaloedd, fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae aelodau'r bwrdd fel arfer yn cynnwys arweinwyr o'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, yr awdurdod tân ac achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru, yr heddlu, y comisiynydd heddlu a throseddau a'r gwasanaethau prawf. Yn ystod camau allweddol paratoïr SDP, bydd y CBC yn ymgynghori â'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) yn ac o amgylch Gogledd Cymru trwy e-bost:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys

Busnesau

5.20 Bydd y gymuned fusnes leol, gan gynnwys arweinwyr y diwydiant a Siambrau Masnach, yn cymryd rhan i ystyried yr effaith ar ddatblygiad economaidd ac isadeiledd.

Sefydliadau Amgylcheddol

5.21 Bydd ymgysylltu â CNC a grwpiau amgylcheddol yn sicrhau bod yr SDP yn cyd-fynd â nodau ynghylch cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a gweithredu hinsawdd.

Partneriaid Trafnidiaeth ac Isadeiledd

5.22 Bydd cydweithio rhwng Partneriaid Trafnidiaeth ac Isadeiledd â Thrafnidiaeth Cymru a darparwyr isadeiledd i integreiddio defnydd tir a chynllunio trafndiaeth gynaliadwy.

Sectorau Iechyd ac Addysg

5.23 Bydd cydweithio rhwng y Sectorau Iechyd ac Addysg â byrddau iechyd, ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio yn unol â thwf ac anghenion cymunedol yn y dyfodol.



Pobl Ifanc a Chenedlaethau'r Dyfodol

5.24 Bydd sefydliadau ieuenctid, ysgolion, a llwyfannau eraill yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu cynnwys, gan ganolbwyntio ar effaith hirdymor y cynllun.

Y Sector Tai a Datblygu

5.25 Bydd cyflawni nodau ac amcanion y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) yn gofyn am dir a buddsoddiad. Gall tirfeddianwyr, asiantau, a datblygwyr sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y broses hon ofyn am gael eu hychwanegu at gronfa ddata ymgynghori yr SDP.

5.26 Bydd y broses Safleoedd a Lleoliadau Ymgeisiol Strategol yn rhoi cyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn tir gyflwyno safleoedd a lleoliadau i'w hystyried i'w datblygu. Bydd Galwad am Safleoedd a Lleoliadau Ymgeisiol Strategol yn cael ei wneud, a bydd angen cyflwyno'r holl gynigion trwy ffurflen safonol. Bydd y ffurflen yn cynnwys y meini prawf sy'n ofynnol i gynorthwyo i asesu addasrwydd safleoedd a lleoliadau i'w cynnwys fel dyraniadau posibl yn yr SDP.

5.27 Bydd trothwy ar gyfer derbyn Safleoedd a Lleoliadau Ymgeisiol Strategol yn cael ei osod i sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn canolbwyntio'n strategol. Bydd y trothwy hwn yn cael ei bennu ymlaen llaw i ddarparu eglurder o'r broses ac osgoi gwneud gwaith diangen ar gyfer safleoedd a fydd yn cael eu gwrthod ar unwaith. Bydd diffinio trothwyon priodol, gosod paramedrau lleoliad/cyfyngiadau eang yn ogystal â sicrhau bod ystod eang o wybodaeth wedi'i chyhoeddi i lywio'r broses hon yn rhoi arweiniad pwysig i hyrwyddwyr y safle ar faint, cwantwm a'r math o safle a fydd yn cael ei ddyrannu/ei gynnig neu ei ddiogelu yn yr SDP. Anogir pob rhanddeiliad yn gryf i ymgyswrtu â'r Llawlyfr SDP i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses yn llawn. Bydd hyn yn sicrhau cyfranogiad effeithiol a chadw at y canllawiau sefydledig pan gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyrff Ymgynghori Penodol

5.28 Mae Cyrff Ymgynghori Penodol, fel y'u diffinnir gan Reoliad SDP 6, yn cwmpasu endidau statudol megis:

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Dŵr Cymru
- Cwmnïau cyfleustodau (Cymru a Lloegr)
- Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig Cyfagos (CBC)



- Byrddau Iechyd Lleol o fewn ardal CBC neu gyfagos iddi
- Pob Cyngor Tref a Chymuned o fewn ardal CBC neu gyfagos iddi
- Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) o fewn ac yn gyfagos i'r ardal SDP (bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) yn defnyddio eu rhwydweithiau cyfathrebu presennol i sicrhau bod pob cynghorydd yn cael ei hysbysu'n briodol).
- Adranau Llywodraeth y DU os yw'r SDP yn debygol o effeithio ar eu buddiannau. Bydd y cyrff hyn yn cymryd rhan ffurfiol yn ystod y broses.

Cyrff Ymgynghori Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Reoliad SDP 5

5.29 Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

- cyrff gwirfoddol, y mae rhai neu bob un o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal y CBC,
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hîl, ethnig neu genedlaethol mewn unrhyw ran o ardal y CBC,
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol mewn unrhyw ran o ardal y CBC,
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau anabl, o fewn ystyr adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(1), mewn unrhyw ran o ardal y CBC,
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n cynnal busnes mewn unrhyw ran o ardal y CBC, a
- chyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru mewn unrhyw ran o ardal y CBC.

5.30 Mae'r defnydd o grwpiau ymbarél fel yr amlinellir uchod yn hanfodol i gyrraedd trawstoriad mor eang â phosibl o'r gymuned. Gallai mwy o ddefnydd o rwydweithiau helpu i gyrraedd grwpiau anoddach eu cyrraedd, gan gynnwys rhai o wahanol darddiad hîl neu ethnig.

5.31 Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr arfaethedig o gyrff ymgynghori cyffredinol.

Ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yn y broses SDP

5.32 Mae grwpiau anodd eu cyrraedd yn segmentau o gymdeithas sydd wedi cael eu tangynrychioli yn hanesyddol yn y broses o baratoi'r cynllun. Mae ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn gofyn am ymdrech ychwanegol i sicrhau eu bod yn rhan o'r broses SDP. Mae angen dull hyblyg o ymgysylltu, ond rhaid i hyn ddigwydd o fewn y cyfnodau cyfranogi ac ymgynghori penodedig.

5.33 Er mwyn ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yn effeithiol yn y broses SDP, bydd y CBC yn sbarduno asiantaethau a grwpiau presennol, fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, pryd bynnag y bo modd. Yn ogystal, gellir cyflogi canolwyr dibynadwy i gasglu barn y rhai sydd heb yr hyder i



gymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses SDP. Mae'r grwpiau isod wedi cael eu nodi fel rhai na ymgysylltwyd â hwy'n ddigonol wrth baratoi cynlluniau blaenorol a byddant yn cael eu hannog i gymryd rhan:

- Pobl ifanc a phlant
- Pobl ag anableddau
- Pobl hŷn
- Pobl ag anawsterau dysgu
- Pobl ddigartref
- Lleiafrifoedd ethnig
- Sipsiwn a Theithwyr

Sut y bydd y CBC yn eich cynnwys chi

5.34 Bydd gwybodaeth am broses yr SDP (Cynllun Datblygu Strategol) yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ar wefan y CBC (Cydbwyllgor Corfforedig). Bydd copïau o'r dogfennau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r broses SDP hefyd ar gael ym Mhrif Swyddfa'r CBC ac ym mhob Prif Swyddfa Llywodraeth Leol yng ngogledd Cymru fel y rhestrir yn Atodiad 3.

Technoleg Ddigidol ar gyfer Ymgysylltu a Lledaenu Gwybodaeth

5.35 Mae pandemig Covid-19 wedi pwysleisio rôl hanfodol technoleg ddigidol wrth gynnal cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â phartneriaid. Yn ystod y cyfnod hwn, mae sefydliadau wedi dibynnu fwyfwy ar ddatrysiadau digidol arloesol. O ganlyniad, dull diodyn y CBC trwy gydol y broses SDP fydd blaenoriaethu cyfathrebu electronig ac ymgysylltu rhithwir.

Mynd i'r afael ag Allgáu Digidol

5.36 Gan gydnabod nad oes gan bawb fynediad i'r rhyngwrdd, mae'r CBC wedi ymrwymo i sicrhau cynhwysiant yn ei broses ymgysylltu. Ar gyfer unigolion heb fynediad i'r rhyngwrdd:

- Bydd copïau caled o ddogfennau ar gael mewn lleoliadau penodol.
- Darperir ffurflenni sylwadau papur ar gais.

Sicrhau Ymgynghoriad Clir a Hygyrch

5.37 Mae'r CBC yn ymroddedig i wneud pob cam o'r broses ymgynghori mor glir a hygyrch â phosibl. I hwyluso hyn:

- Bydd swyddogion ar gael (trwy apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw) i ymdrin ag ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r SDP ar ddyddiau'r wythnos yn ystod oriau swyddfa arferol.



- Gellir cyfeirio ymholiadau at y CBC trwy eu cyfeiriad gwe neu at Brif Swyddfa'r CBC.

5.38 Trwy sbarduno technolegau digidol a darparu dulliau mynediad amgen, nod y CBC yw meithrin ymgysylltiad cynhwysfawr a chynhwysol trwy gydol y broses SDP.

Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Broses SDP

5.39 Mae'r CBC wedi ymrwymo i sicrhau ymwybyddiaeth eang ac ymgysylltiad gweithredol trwy gydol y broses SDP. Y camau i gyflawni hyn yw:

- Cyswllt Uniongyrchol: Bydd y CBC yn cyfathrebu'n uniongyrchol â phartion â diddordeb, yn bennaf trwy e-bost neu lythyrau, naill ai'n Gymraeg neu Saesneg yn ôl yr angen.
- Cyfryngau Cymdeithasol: Defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol CBC, pan fo'n briodol, i rannu diweddariadau a gwybodaeth.
- Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig: Cynnal gweithdai ffocws, sesiynau briffio, a sesiynau galw heibio ac adrodd i gyfarfodydd CBC perthnasol.
- Datganiadau i'r Wasg: Cyhoeddi datganiadau i'r wasg i'r cyfryngau lleol fel bo'n briodol i gyrraedd cynulleidfia ehangach.
- Dogfennau Addysgiadol: Creu fersiynau hawdd eu darllen neu ddogfennau cryno i hwyluso dealltwriaeth o gamau allweddol.
- Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd: Trefnu arddangosfeydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, neu arddangosfeydd rhithwir.
- Ymgysylltu ac Ymgynghori Rhithwir: Defnyddio technoleg ar y we fel gweminarau i ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

Darparu Cyfleoedd i Gymryd Rhan

5.40 Nod y CBC yw cynnig nifer o gyfleoedd i randdeiliaid a phartion â diddordeb gael gafael ar wybodaeth a chymryd rhan yn y broses SDP. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau adnoddau, rhaid cydbwysu maint yr ymgysylltiad. Mae'r prif ystyriaethau'n cynnwys:

- **Triniaeth Deg a Chyfartal:** Sicrhau bod pob ymgynghorai yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal.
- **Cyfyngiadau Adnoddau:** Cydnabod terfynau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu.
- **Argaeledd Swyddogion:** Ni fydd swyddogion yn mynychu cyfarfodydd a drefnir gan grwpiau unigol ond byddant ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol trwy gydol y broses SDP i ddarparu gwybodaeth neu gymorth yn ôl yr angen.



Cronfa Ddata Ymgynghorai'r SDP

5.41 Bydd 'Cronfa Ddata Ymgynghorai'r SDP' yn cael ei chreu i gynnwys aelodau o'r cyhoedd, unigolion sydd â diddordeb, ac unrhyw sefydliadau sydd wedi gofyn am ddiweddariadau am bob cam o'r broses SDP (Cynllun Datblygu Strategol). Prif nod y gronfa ddata hon yw sicrhau bod y rhai nad ydynt ar restr swyddogol Llywodraeth Cymru o ymgynghoreion ar gyfer Cynlluniau SDP yn dal i fod yn rhan o'r broses a'u diweddaru drwy gydol y broses. O 25 Mai 2018, mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn gorfodi cyfyngiadau newydd ar sut y gall sefydliadau storio a defnyddio data personol, gan ddiffinio hawliau unigolion mewn perthynas â'u data. Bydd y GDPR yn berthnasol i 'Gronfa Ddata Ymgynghorai'r SDP', ac felly, rhaid i aelodau'r cyhoedd roi caniatâd ysgrifenedig i gael eu hychwanegu at gronfa ddata'r SDP.

Ychwanegu Manylion at Gronfa Ddata'r SDP

5.42 Gall unrhyw un sy'n dymuno cael ei ychwanegu at gronfa ddata'r SDP wneud hynny trwy gysylltu â'r Tîm SDP naill ai trwy e-bost neu'n ysgrifenedig.

Neilltuo Rhifau Cynrychiolydd

5.43 Bydd rhif cynrychiolydd unigryw i bob person (cynrychiolydd) sy'n cael ei ychwanegu at y gronfa ddata, a fydd yn aros yr un fath trwy gydol pob cam o baratoi SDP er mwyn cysondeb. Defnyddir y rhif hwn i gyfeirio at unrhyw sylwadau a wneir yn ystod camau ymgynghori.

Diweddaru Manylion Cyswllt

5.44 Mae'n gyfrifoldeb ar bob cynrychiolydd i roi gwybod i'r CBC os yw eu manylion cyswllt yn newid yn ystod y broses SDP. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhoi gwybod i'r holl gynrychiolwyr yn llawn am y cynnydd. Yn yr un modd, ar gyfer Safleoedd a Lleoliadau Ymgeisiol Strategol, rhaid cyfathrebu unrhyw newidiadau mewn perchnogaeth tir i'r CBC er mwyn atal unrhyw oedi yn y broses.

Adeiladu Consensws

5.45 Mae'r CBC wedi ymrwymo i adeiladu consensws trwy wahanol ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori fel yr amlinellir yn y CIS. Mae cyflawni consensws yn gofyn diweddaru'r gymuned a phartïon eraill sydd â diddordeb yn llawn ac ymgysylltu â hwy'n effeithiol, yn enwedig yn ystod camau cynnar paratoi'r SDP. Mae'r CBC yn cydnabod y bydd adegau pan na ellir cyrraedd consensws, gan arwain at wahaniaethau barn.



5.46 Er mwyn sicrhau tryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau, bydd y CBC yn cadw trywydd archwilio clir o'r holl benderfyniadau. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n anghytuno, gan ddangos bod penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Ar ben hynny, bydd y CBC yn ystyried yn ofalus yr holl dystiolaeth ategol a ddarperir gan gynrychiolwyr a rhanddeiliaid, ochr yn ochr â sylfaen dystiolaeth yr SDP, i gefnogi safbwyntiau amrywiol.

5.47 I grynhoi, mae dull y CBC o adeiladu consensws yn cynnwys:

- Diweddarau'r holl rhanddeiliaid yn llawn ac ymgysylltu â hwy o'r cychwyn cyntaf.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori yn unol â'r CIS.
- Cynnal tryloywder trwy drywydd archwilio clir o benderfyniadau.
- Ystyried yr holl dystiolaeth a safbwyntiau yn drylwyr.

5.48 Mae'r dull hwn yn sicrhau, hyd yn oed yn absenoldeb cytundeb unfrydol, bod y broses yn parhau i fod yn deg, yn dryloyw, ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Rheoli Sylwadau

5.49 Bydd sylwadau a dderbynnir o fewn yr amserlenni penodedig yn cael eu trin fel a ganlyn:

- Cydnabyddiaeth drwy e-bost (neu lythyr lle bo'r angen) gan ddarparu manylion cyswllt a manylu ar sut bydd y CBC yn delio â'r sylwadau
- Manylion y camau nesaf yn y broses o baratoir SDP
- Ymatebion y CBC i sylwadau a gofnodwyd ac a gyhoeddwyd yn unol â'r Rheoliadau SDP.

5.50 Bydd gwefan y CBC yn cael ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth a newyddion diweddar am gynnydd yr SDP. Ar bob cam allweddol, bydd ymatebion ymgynghori yn cael eu hadrodd i'r CBC.

5.51 Bydd deisebau a dderbynnir yn ystod cyfnodau ymgynghori ar yr SDP yn cael eu cydnabod a'u cofrestru fel cynrychiolaeth ddilys. Rhaid i bob deiseb enwebu un cyflwynydd. Anfonir cydnabyddiaeth drwy e-bost neu lythyr at gyflwynydd y ddeiseb a fydd yn bwynt cyswllt a bydd ganddo'r hawl i gael ei glywed mewn unrhyw Archwiliad yn y dyfodol, yn amodol ar gytundeb gan yr Arolygydd (PEDW). Nid yw hyn yn cyfyngu ar hawl unigolion sy'n llofnodi'r ddeiseb i gyflwyno sylwadau ffurfiol ar wahân ar yr SDP.

Sylwadau Hwyr

5.52 Mae'r broses baratoir SDP yn ddarostyngedig i gyfnodau ymgynghori statudol ac anstatudol sydd â chyfnodau diffiniedig lle dylid gwneud sylwadau. Er mwyn sicrhau tegwch a chydaddoldeb i



bawb, bydd unrhyw sylwadau/cynrychiolaeth a dderbynnir ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori rhagnodedig yn cael eu hystyried fel rhai 'heb eu gwneud yn briodol' ac ni fyddant yn cael eu hystyried ymhellach. Mae'r amserlen i gynhyrchu'r SDP wedi cael ei chytuno gan Lywodraeth Cymru a gallai derbyn sylwadau hwyr arwain at oedi na fyddai'n dderbyniol.

- 5.53 Dim ond pan fo'r CBC yn fodlon bod ymgais wirioneddol i gyflwyno sylwadau o fewn yr amserlenni penodol wedi'i gwneud, y bydd sylwadau hwyr yn cael eu cofrestru fel rhai a wnaed yn briodol. Bydd angen tystiolaeth o ddosbarthu, postio ac ati i gefnogi honiadau o'r fath. Disgwylir i amgylchiadau o'r fath fod yn eithriadol, a chynghorir pob cynrychiolydd i gyflwyno sylwadau (cynrychiolaeth) o fewn y cyfnodau ymgynghori a hysbysebwyd.

Argaeledd Dogfennau

- 5.54 Bydd dogfennau'r SDP a'r ffurflenni cynrychiolaeth ar gael yn electronig yng nghanau perthnasol y broses baratoi ar wefan CBC yn: <https://uchelgaigogledd.cymru/cynllunio-strategol/>.

Bydd copïau cyfeirio hefyd ar gael yn y lleoliadau isod:

- Prif Swyddfa CBC: Sarn MynachCyffordd Llandudno, LL31 9RZ
- Prif Swyddfeydd Llywodraeth Leol (Atodiad 3)

- 5.55 Lle bo'r angen, bydd copïau caled o ddogfennau yn cael eu hanfon at gyrff Ymgynghori Penodol. Fodd bynnag, ni fydd copïau papur o ddogfennau yn cael eu hanfon yn gyffredinol yn ystod y broses SDP gan y byddant ar gael i'r cyhoedd yn y lleoliadau a restrir uchod, a hefyd ar gael yn electronig ar wefan Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cynnig copïau papur. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei asesu fesul achos yn dibynnu ar anghenion penodol yr unigolyn neu'r rhanddeiliad perthnasol.

- 5.56 Mae crynodeb o gyfranogiad rhanddeiliaid yng nghyfnodau allweddol yr SDP wedi'i atodi fel Atodiad 4.



6. Yr Amserlen

6.1 Mae'r amserlen yn nodi amserlen gynhwysfawr ar gyfer paratoi'r SDP, gan ddarparu amserlenni clir a cherrig milltir ar gyfer camau allweddol y broses. Mae'r amserlen wedi'i strwythuro'n ddwy brif ran:

Camau Diffiniol:

- Yn cwmpasu pob cam hyd at a chan gynnwys y cam Adneuo statudol.
- Mae cynnydd y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) yn ystod y camau hyn o dan reolaeth uniongyrchol y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).
- Mae'r dyddiadau targed ar gyfer y camau hyn yn cael eu hystyried yn realistig a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw atynt.

Camau Dangosol:

- Yn cwmpasu'r camau o baratoi'r cynllun y tu hwnt i'r cam Adneuo statudol.
- Mae cynnydd yn y camau hyn yn dibynnu ar amrywiol ffactorau allanol (e.e. nifer y sylwadau a dderbyniwyd, nifer y sesiynau gwrandawriad arholiad, yr amser a gymerir i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd) y mae gan y CBC reolaeth gyfyngedig arnynt.
- Mae'r dyddiadau ar gyfer y camau hyn yn destun ailystyriaeth ar ôl cyrraedd y cam Adneuo. Bryd hynny, bydd amseroedd diffiniol ar gyfer y camau sy'n weddill yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cytuno a'u cyhoeddi.

6.2 **Tabl 1: Crynodeb o'r Amserlen SDP: Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r camau allweddol a'r cerrig milltir o'r amserlen fanwl a amlinellir yn Atodiad 5.**

Cam Allweddol			Amserlenni
Diffiniol			
Cam 1	Cytundeb Cyflawni Paratoi a chyflwyno	Rheoliadau SDP 7 i 12	Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo erbyn mis Mawrth 2026.
Cam 2	Cyn-adneuo Paratoi a chyfranogiad	Rheoliad SDP 16 (1) – (a-d)	Awst 2026 – Gorffennaf 2027
Cam 3	Strategaeth a Ffafir ymgynghoriad cyhoeddus (6 wythnos)	Rheoliad SDP 17 – 19	Hydref – Tachwedd 2027



Cam 4	Paratoïr Cynllun Adnau ac ymgynghoriad cyhoeddus	Rheoliadau SDP 20 - 22	Rhagfyr 2027 - Chwefror 2029 (Ymgynghoriad Cyhoeddus: Mawrth 2029 - Ebrill 2029)
Cam 5	Cyflwyno i PEDW a Llywodraeth Cymru ar gyfer E.I.P.	Rheoliad SDP 23	Ionawr 2030
Dangosol			
Cam 6	Archwiliad	Rheoliad SDP 24	Ebrill 2030 - Mai 2030
Cam 7	Adroddiad yr Arolygydd	Rheoliad SDP 25	Ionawr 2031
Cam 8	Mabwysiadu	Rheoliad SDP 35	Mawrth 2031

6.3 Mae Atodiad 4 yn cynnwys amserlen fanwl ar y rhaglen sy'n amlinellu'r amserlen benodol ar gyfer pob cam o baratoïr cynllun. Mae'n darparu dadansoddiad o'r tasgau i'w cwblhau, o gasglu data cychwynnol i fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) yn derfynol. Mae pob carreg filltir yn yr amserlen yn cyd-fynd â dyddiadau cau clir ac amcangyfrif o hyd, gan sicrhau tryloywder ac ateb-olrwydd yn y broses. Mae'r atodiad yn gwasanaethu fel cyfeiriad i randdeiliaid olrhain cynnydd ac alinio eu cyfranogiad ar bwyntiau allweddol

Asesiad Risg

6.4 Yn unol â gofynion y Llawlyfr SDP, mae SDPs i'w cwblhau o fewn pum mlynedd o gytundeb ffurfiol y DA. Mae darpariaeth ar gyfer un cyfnod llithro ychwanegol o dri mis, gan ddarparu hyblygrwydd cyfyngedig os oes angen. Mae unrhyw wyriad y tu hwnt i'r amserlen hon yn gofyn am adolygiad ffurfiol i'r DA, y dylid ei ystyried o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae'r CBC wedi nodi meysydd risg penodol a allai arwain at wyriadau o'r amserlen. Mae'r risgiau hyn, ynghyd â'r ymatebion arfaethedig ar gyfer eu rheoli, yn cael eu manylu yn Atodiad 6.



7. Cyllideb y Rhaglen a Strategaeth Adnoddau

7.1 Er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol amserlen yr SDP, bydd angen lefel briodol o gyllideb ac adnoddau staff. Bydd y dyraniad hwn yn cael ei adlewyrchu trwy ymgorffori'r gofyn i baratoi SDP yn y Cynllun Corfforaethol.

Cyllideb Rhaglen SDP

7.2 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r costau disgwylidig sy'n gysylltiedig â pharatoi'r SDP, yn seiliedig ar asesiad a gynhaliwyd gan Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG).

3.1 Costau Sylfaenol	Amcangyfrif o'r Gost
Paratoi'r sail tystiolaeth	tua £834,750
Archwiliad cyhoeddus	tua £262,500
Cronfa ddata ymgynghori	£31,500
Offer swyddfa gefn a gwefan	£66,150
Cyfieithu ac argraffu	£110,250
Adnoddau staff	£1,971,334
Cyfanswm y gost a ragwelir o baratoi'r SDP dros gyfnod o 5 mlynedd.	£3,276,484

Strategaeth Adnoddau

7.3 Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yn anelu at recriwtio'r bobl iawn gyda'r sgiliau cywir i'r rolau cywir ar yr adeg iawn. Mae'r CBC yn credu bod sefydlu tîm rhanbarthol annibynnol yn hanfodol i sicrhau bod digon o adnoddau staff ar gael ar gyfer paratoi a chyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP). Wedi dweud hynny, mae cronfa gyfyngedig o weithwyr proffesiynol cynllunio profiadol hefyd ac mae'r CBC yn arbennig eisiau osgoi recriwtio staff o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn y rhanbarth a allai wedyn arwain at dimau Cynllun Lleol priodol yn ei chael hi'n anodd cael adnoddau eu hunain.

7.4 Mae'r rolau arfaethedig ar gyfer y tîm cynllunio rhanbarthol wedi'u nodi isod:

- Pennaeth Tîm SDP
- Uwch Gynllunydd Rhanbarthol x4
- Swyddog Cymorth Technegol x1



- 7.5 Mae'r gallu i roi'r tîm uchod, neu adnoddau tebyg, ar waith o fewn y CBC yn dibynnu ar gael yr adnoddau ariannol i recriwtio tîm o'r fath. Er gwaethaf y strwythur hwn, a ddatblygwyd fel rhan o'r asesiad cychwynnol o anghenion adnoddau a wnaed gan y NWPOG, ac sy'n adlewyrchu'r rhai sy'n dod i'r amlwg mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill, mae'r gyllideb a osodwyd ar gyfer yr SDP gan y CBC yn ddigon i ariannu cychwyn yr SDP a dyrannu digon o gyllid i ddiwallu anghenion y cynllun ym mlwyddyn 1 y rhaglen. Cymeradwywyd cyllideb 2026/27 ar gyfer y CBC sy'n ymgorffori darpariaeth ar gyfer yr SDP, yng nghyfarfod y CBC a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 23 Ionawr 2026. Ymhlyg yn y penderfyniad hwn mae cydnabyddiaeth bod y CBC wedi ymrwymo i'r broses o gynhyrchu'r cynllun cyfan fel yr amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni.
- 7.6 Bydd cyllid ar gyfer datblygu'r SDP yn ffurfio rhan o Gynllun Corfforaethol Uchelgais Gogledd Cymru, ac mae rhan ohono yn cynnwys cynhyrchu strategaeth ariannol tymor canolig a fydd yn mapio'r cyllid sydd ei angen ar gyfer yr SDP dros yr holl amserlen gynhyrchu. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at y broses o osod cyllideb flynyddol y tu hwnt i 2026/27.
- 7.7 Mae gan y CBC swyddog arweiniol eisoes i gydlynu'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun. Yn ogystal, mae cymorth ymgynghorwyr hefyd ar waith i gynorthwyo gydag, a chyflymu'r gwaith o, archwilio a datblygu sylfaen dystiolaeth addas. Mae darpariaeth hefyd wedi'i wneud yng nghyllideb 2026/27 i benodi uwch swyddog cynllunio i ymuno â'r tîm, ac mae gwaith eisoes yn digwydd o ran recriwtio.

Secondiadau

- 7.8 Trwy gydol y broses SDP, gellir defnyddio secondiadau fel dull cost-effeithiol o gaffael gwybodaeth a sgiliau arbenigol wrth ychwanegu gwytnwch i'r tîm craidd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ei chael hi'n anodd bwrw ymlaen â'u Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) eu hunain os caiff unigolion ar secondiad eu recriwtio o fewn eu timau presennol. Er mwyn lliniaru'r mater posibl hwn, bydd pob secondiad yn cael ei gynllunio'n ofalus i sicrhau ychydig iawn o darfu ar brosesau parhaus y CDLI.



Atodiad 1 - Cynllun Datblygu Strategol (CDS) Gogledd Cymru - Asesiad Sail Dystiolaeth

Dogfen	Pwrpas	Pwy/sut y cyflawnwyd
Dogfennau Allweddol		
Cytundeb Cyflawni CDS (DA) sy'n ymgorffori'r Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol (SCI)	Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer ei baratoi, gan nodi amserlenni clir a cherrig milltir ar gyfer camau allweddol y broses.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) sy'n ymgorffori Adroddiad Cwmpasu Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) i amlinellu'r dull arfaethedig tuag at yr ISA, gan ymgorffori'r SEA.	Yr adroddiad hwn yw cam cyntaf proses SA i nodi, asesu a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd o'r CDS sy'n dod i'r amlwg.	Ymgynghorwyr allanol
Adroddiad Cwmpasu ISA/SA/SEA	Adroddiad Cychwynnol i nodi, o asesiad o ddewisiadau amgen rhesymol, a fydd y CDS yn cael unrhyw effaith sylweddol ar yr amgylchedd a phenderfynu a fydd y Cynllun yn darparu datblygu cynaliadwy. Mae'r Adroddiad Cychwynnol yn cynnwys asesiad cymesur o safleoedd ymgeiswyr. Bydd ymgynghoriad ag Adroddiadau Asesu Rheoliadau Cynefinoedd ac ISA ar y cyd â'r CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Adnabod ac asesu gweledigaeth, materion ac amcanion. Op-siynau Twf a Strategaeth.	Bydd y gwaith hwn yn rhoi ystyriaeth gynnar o'r strategaeth ofodol a thwf posib y mae'r rhanbarth eisiau ei chyflawni, h.y. ble/beth yw'r strategaeth ofodol fwyaf cynaliadwy ar gyfer y rhanbarth a sut mae hyn yn gyson â'r weledigaeth gyffredinol.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Y Strategaeth a Ffefrir gan y CDS	Nodi math a graddfa'r newid gofodol sydd ei angen i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDS arfaethedig.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.



ISA llawn y Strategaeth a Ffefrir	Nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol tebygol o'r CDS, ac awgrymu mesurau lliniaru perthnasol.	Ymgynghorwyr allanol
Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir	Amlinellu sut mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) wedi cynnwys ac ymgynghori â'r cyhoedd ar y Strategaeth a Ffefrir, yn unol â Rheoliad CDS 16a. Bydd yr Adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd i baratoi'r cynllun, yn unol â'r CIS, cyn amlinellu'r cyrff penodol sy'n ymgysylltu, crynhoi'r prif faterion a godwyd a nodi sut mae'r ymatebion wedi cael sylw neu am gael sylw. Mae'r Adroddiad yn rhoi manylion sylweddol ar sut y cafodd y cyfnod allweddol hwn o ymgynghori ddylanwad ar ddatblygiad y CDS Adneuo.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Cynllun Adneuo	Y Cynllun Adneuo yw'r cynllun y mae'r CBC yn ei ystyried yn 'gadarn' ac y mae'n bwrriadu ei gyflwyno i'w archwilio ar ôl ymgynghori a gellir ei fabwysiadu. Rhaid ymgynghori ar y Cynllun Adneuo am o leiaf 6 wythnos.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
ISA Llawn y Cynllun Adneuo a Chrynodeb Annhechnegol	Nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol tebygol o'r CDS, ac awgrymu mesurau lliniaru perthnasol. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyriaethau cynaliadwyedd ym mhob cam o baratoi'r CDS ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.	Ymgynghorwyr allanol
Adroddiad Ymgynghori Adneuo	Dogfennu'n gynhwysfawr sut mae'r CBC wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed ar y Cynllun Adneuo. Bydd yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd drwy gydol y broses, gan gynnwys y sylwadau a wnaed a'r argymhellion ynghylch sut mae'r CBC yn ystyried y dylid mynd i'r afael â phob sylw. Mae'n rhagofyniad allweddol i gyflwyno'r CDS yn unol â'r DA.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Profion Cadernid (2022)	Asesu sut a pham mae'r CBC o'r farn bod y Cynllun wedi bodloni'r Profion Cadernid a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.	Paratowyd gan y CBC yn fewnol.



Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Mae rheoliad 63 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) i ddangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau statudol yn y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau Cynefinoedd - lle ystyrir bod cynllun neu brosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd ac nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle nac yn angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle. Pwrpas yr adroddiad hwn yw dogfennu cam ffurfiol cyntaf y broses HRA hon, sef, gweld a fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol (LSE) ar Safleoedd Ewropeaidd perthnasol gan y CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Aseidiadau Sail Tystiolaeth		
Ardal Chwilio Strategol a Chofrestr Safleoedd Posib	Cofnod o safleoedd a gyflwynwyd gan dirfeddianwyr, datblygwyr a'r cyhoedd, a fydd yn cael eu defnyddio fel pwynt cyfeirio i asesu pob safle yn erbyn y Paratowyd gan swyddogion y CBC. Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ei chynnwys o bosib o fewn y CDS.	[Bydd y CBC yn nodi maint / trothwy capasiti / maen prawf ar gyfer adnabod penodol yn y CDS].
Adroddiad Asesu Ardaloedd Chwilio Strategol a Safleoedd Posib (SSCSA)	Bydd y CDS yn cael ei gefnogi gan Asesiad Ardaloedd Chwilio Strategol a Safleoedd Posib, sy'n nodi'r safleoedd posib sy'n addas i'w dyrannu o fewn y CDS.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Asesiad Sail Tystiolaeth Economaidd (EEBA)	Darparu argymhellion, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar raddfa a dosbarthiad yr angen am gyflogaeth a'r tir sydd fwyaf addas i ddiwallu'r angen hwnnw. Hefyd, gwneud argymhellion o ran polisi / dyrannu tir i lywio polisiau a dyrannu safleoedd sy'n dod i'r amlwg.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Anghenion Manwerthu (RRA)	Gosod argymhellion, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar anghenion manwerthu, dosbarthiad anghenion ac yna llywio polisiau sy'n dod i'r amlwg a dyrannu safleoedd strategol (ar raddfa ranbarthol).	Ymgynghorwyr allanol



Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy (RSA)	Sefydlu hierarchaeth o aneddiadau cynaliadwy a all lywio'r CDS. Bydd hyn yn nodi'r lleoliadau mwyaf priodol i ddarparu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol i gyflawni patrwm cynaliadwy o dwf, lleihau patrymau symud anghynaliadwy, hyrwyddo datblygiad sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Dadansoddiad Demograffig ac Asesu Rhagolygon (DAFA)	Darparu crynodeb o dystiolaeth ddemograffig, gan gynnwys cyfres o ganlyniadau am boblogaeth, tai a thwf economaidd i lywio'r papur Opsiynau Twf Strategol i'w hystyried wrth baratoir CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Seilwaith Gwyrdd (GIA)	Darparu dadansoddiad gofodol cyfannol o seilwaith gwyrdd ar draws y rhanbarth.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Dadansoddiad Cyfradd Adeiladu	Darparu dadansoddiad o gyfraddau adeiladu ar draws y rhanbarth er mwyn helpu i lywio opsiynau twf h.y. yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig at ei gilydd ac mewn gwahanol rannau o'r rhanbarth. Bydd y gwaith hwn yn cysylltu â'r SHMA a'r LHMA ac yn llywio'r taflwybr tai dangosol.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Asesiad Marchnad Dai (HMA)	Darparu mewnwelediadau manwl i fecaneg y marchnadoedd eiddo preswyl ledled y rhanbarth. Bydd yr Asesiad yn cynnwys asesiad meintiol o'r angen am dai a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio polisiau tai y CDS o ran darparu tai fforddiadwy, deiliadaeth a'r mathau o lety sydd eu hangen ar draws y rhanbarth.	Paratowyd gan swyddogion y CBC.
Asesiad Dynodiadau Tirwedd Arbennig (SLDA)	Cynnal adolygiad o'r dynodiad Ardaloedd Tirwedd Arbennig o fewn y rhanbarth i nodi ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn deilwng o gael eu cadw fel dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig yn y CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Cymeriad Tirwedd (LCH)	Bydd y ddogfen hon yn darparu sail dystiolaeth gadarn i ystyried cymeriad a sensitifrwydd gwahanol dirweddau'r rhanbarth wrth ystyried datblygiadau newydd. Bydd hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth o sut mae tirweddau'r rhanbarth yn newid	Ymgynghorwyr allanol



	(oherwydd cyfuniad o ffactorau naturiol, economaidd a dynol), a sut y gellir eu cryfhau mewn ymateb.	
Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)	Asesu anghenion llety Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a Phobl Sioeau Teithiol yn y dyfodol a phenderfynu a oes gofyn am ddarparu safle ychwanegol yn y rhanbarth. Bydd hyn yn llywio unrhyw ddyraniadau safleoedd cysylltiedig a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn y CDS.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Safle Dros Dro Llety Sipsiwn a Theithwyr	Asesu anghenion safleoedd trafnidiaeth Sipsiwn a Theithwyr a Phobl Sioeau Teithiol yn y dyfodol.	Ymgynghorydd allanol
Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA).	Bydd yr SFCA diweddaraf yn creu fframwaith strategol ar gyfer ystyried perygl llifogydd wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Fe'i datblygwyd yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd (TAN15), yn ogystal ag arweiniad pellach a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r Astudiaeth wedi'i diweddarau yng ngoleuni'r TAN 15 drafft newydd a'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Hyfywedd Cynllun Gyfan (PWVA)	Deall sut y gall gwahanol feysydd marchnad effeithio ar hyfywedd darparu tai preifat a fforddiadwy yn ogystal ag isadeiledd cysylltiedig i lywio llunio polisi, mynegiant gofodol a chymhwyso.	Ymgynghorwyr allanol
Asesiad Cyfyngiadau a Chyfleoedd yr Amgylchedd Cyffredinol.	Mapio a nodi cyfyngiadau/cyfleoedd amgylcheddol cyffredinol a sut y gall hyn ddylanwadu ar leoliadau ar gyfer twf ar raddfa strategol.	Ymgynghorwyr allanol
